OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1457 (Cy.130) (C.83)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 19 Mai 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 161(3) a (4) a 170(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y diwrnod penodedig

2. 21 Mai 2010 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 ddod i rym—

(a) adran 140, i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan 2 o Atodlen 12;

(b) adran 166, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diddymiadau a grybwyllir ym mharagraff (ch);

(c) Rhan 2 o Atodlen 12; ac

(ch) y diddymiadau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o Atodlen 15 sy'n ymwneud ag adrannau 174 i 176 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac Atodlen 8 iddi(**2**).

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

19 Mai 2010

(**1**) 2008 p.14.
(**2**) 2006 p.42.